**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Drwy e-bost

15 Ionawr 2020

Annwyl Russell,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: ymchwil ac arloesi**

Yn haf 2019, ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) at y Gweinidog Addysg yn gofyn am bapur ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21. Yn y **llythyr** hwn fe nodwyd y byddem yn gweithio gyda phwyllgorau eraill sydd â'r un diddordebau a chyfrifoldebau – gan gynnwys Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) – fel na fyddai Llywodraeth Cymru na Phwyllgorau'r Cynulliad yn dybyglu ymdrechion yn ddiangen.

Yn unol â'r hyn a gytunwyd â chi, ac i sicrhau bod amser y Gweinidog Addysg ac amser y Pwyllgorau yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, gan fod yr amserlen ar gyfer cylch y gyllideb yn dynn, gofynnwyd cwestiynau am ymchwil ac arloesi i'r Gweinidog Addysg yn ein sesiwn craffu ar y gyllideb ar 8 Ionawr. 2020. Fel aelod o'r Pwyllgor PPIA a'r Pwyllgor ESS, arweiniodd Hefin David AC ar yr agwedd hon ar ein gwaith craffu. Mae'r agweddau perthnasol ar y drafodaeth ym mharagraffau 158 - 181 o **Gofnod y Trafodion**.

Gan gydnabod cylch gwaith eich Pwyllgor, a'r ffaith bod gennych gyfrifoldeb am graffu ar waith Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, deallaf ei bod yn fwriad gan y Pwyllgor ESS ystyried y wybodaeth hon a'i hadlewyrchu yn eich adroddiad. Yn hynny o beth, roeddwn am ysgrifennu i ddwyn y dystiolaeth hon i'ch sylw yn ffurfiol, ac er mai'r Pwyllgor PPIA a gasglodd y dystiolaeth, oherwydd rhesymau effeithlonrwydd, dyma nodi mai'r Pwyllgor ESS a fydd yn ystyried materion ymchwil ac arloesi yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 a chyflwyno adroddiad arnynt.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565